**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Hydref 2010**

## PENODI AELOD ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Awdurdod fod aelod annibynnol newydd wedi ei benodi i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

## Cefndir

2 Yn ystod 2003, yn unol â gofynion cyfreithiol, sefydlwyd Pwyllgor Safonau gan yr Awdurdod. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, pedwar ohonynt yn aelodau annibynnol a dau yn gynrychiolwyr yr Awdurdod Tân.

## Gwybodaeth

3 Yn dilyn ymddiswyddiad Samindre Soysa, hysbysebwyd y swydd yn y Daily Post ac ar wefan y Gwasanaeth. Daeth chwe chais i law yn ymateb i'r hysbyseb. Roedd pob un o'r ymgeiswyr yn gymwys i wneud cais am y swyddi.

4 Bu'r Panel a sefydlwyd gan yr Awdurdod yn ystyried y ceisiadau a ddaeth i law, a chytunwyd i gyfweld â phump o blith y chwe ymgeisydd.

5 Cyfarfu'r Panel i benderfynu ar restr fer ac yna gwahoddwyd yr ymgeiswyr am gyfweliad ar y 1af o Fedi. Ar ddiwedd y broses gyfweld, bu'r Panel yn trafod nodweddion a chryfderau'r ymgeiswyr, gan ddod i'r casgliad y gellid penodi unrhyw un ohonynt.

6 Penderfynodd y Panel benodi David Morris, a hynny i ddod i rym ar y 1af o Fedi 2010 am gyfnod o bedair blynedd.

7 Aelodaeth y Pwyllgor a'u cyfnodau fydd:

**Aelodau Annibynnol:**
Simon Fysh (Medi 2007 – Medi 2011)
Celia Blomeley (Ionawr 2010 – Rhagfyr 2013)
Jane A Eyton-Jones (Ionawr 2010 – Rhagfyr 2013)
David Morris (Medi 2010 - Awst 2014)

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân:**
Y Cynghorydd Merfyn Thomas, Conwy (Mai 2008 – Mai 2012)
Y Cynghorydd Glyn Williams, Sir Ddinbych (Mai 2008 – Mai 2012)

**Argymhelliad**

8 Bod yr Awdurdod yn nodi cynnwys yr adroddiad.